



Datganiad Meincnodi Pwnc

Cymraeg

Rhagfyr 2019

Cynnwys

| | |
|---|----|
| Sut ydw i'n defnyddio'r ddogfen hon? | 1 |
| Ynghylch y Datganiad hwn | 2 |
| Y berthynas â deddfwriaeth | 2 |
| Crynodeb o'r newidiadau oddi ar y Datganiad Meincnodi Pwnc blaenorol (2015)..... | 2 |
| 1 Egwyddorion diffiniol..... | 3 |
| 2 Natur a chwmpas y Gymraeg fel pwnc..... | 4 |
| 3 Gwybodaeth bynciol a sgiliau | 5 |
| 4 Dysgu, addysgu ac asesu..... | 7 |
| 5 Safonau meincnodi | 9 |
| Atodiad 1: Aelodaeth y grwpiau meincnodi ac adolygu ar gyfer y Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Cymraeg | 12 |

Sut ydw in defnyddior ddogfen hon?

Dyma'r Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Cymraeg. Mae'n diffinio'r safonau academiaidd y gellir eu disgwyl gan un sydd wedi graddio yn y pwnc, o ran yr hyn y gallai ei wybod, ei wneud a'i ddeall ar derfyn ei astudiaethau, ac mae'n disgrifio natur y pwnc.

Mae [Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU](#) (y Cod Ansawdd) yn nodi'r Disgwyliadau a'r Arferion Craidd y mae disgwyl i holl ddarparwyr addysg uwch y DU eu cyflawni. Mae'n rhaid i ddarparwyr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd gyflawni'r Arferion Cyffredin sydd wedi'u nodi yn y Cod Ansawdd.

Mae Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) y Deyrnas Unedig hefyd wedi cyhoeddi cyfres o ddogfennau [Cyngor a Chyfarwyddyd](#), sydd wedi'u rhannu'n 12 thema, ynghyd â nifer o adnoddau eraill sy'n cefnogi rhan orfodol y Cod Ansawdd. Mae Datganiadau Meincnodi Pwnc yn eistedd ochr yn ochr â'r adnoddau hyn i helpu darparwyr i ddatblygu cyrsiau a mireinio cwricwla, ond nid ydynt yn ofynion rheoleiddiol i ddarparwyr addysg uwch yn y DU.

Bwriad y Datganiad hwn yw eich cefnogi os ydych:

- yn ymwneud â chynllunio, darparu ac adolygu cyrsiau astudio mewn Cymraeg neu bynciau cysylltiedig
- yn ddarpar fyfyrwr syn ystyried astudior pwnc hwn, neun fyfyrwr yn y pwnc ar hyn o bryd, er mwyn cael gwybod beth sydd wedi gynnwys
- yn gyflogwr, er mwyn cael gwybod am yr wybodaeth ar sgiliau y disgwyl i'r fel arfer i fyfyrwr sydd wedi graddio yn y pwnc hwn feddu arnynt.

Mae Datganiadau Meincnodi Pwnc yn darparu canllawiau cyffredinol ar gyfer mynegi'r deilliannau dysgu sy'n gysylltiedig â'r cwrs ond nid yw'n fwriad iddynt fod yn gwricwlwm cenedlaethol ar gyfer pwnc na phennu dulliau gosodedig o addysgu, dysgu neu asesu. Yn hytrach, maent yn caniatáu hyblygrwydd ac arloesedd wrth gynllunio cyrsiau o fewn fframwaith y mae cymuned y pwnc wedi cytuno arno.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at y ddogfen Cyngor a Chyfarwyddyd berthnasol wrth ddefnyddio'r Datganiad hwn.

Mae esboniadau ar gael o dermau anghyfarwydd sydd wedi'u defnyddio yn y Datganiad Meincnodi Pwnc hwn yn [Rhestr Termau](#) QAA.

Ynghylch y Datganiad hwn

Mae'r Datganiad Meincnodi Pwnc hwn yn cyfeirio at raddau baglor mewn Cymraeg.¹

Cynhyrchwyd y Datganiad hwn gan grŵp o arbenigwyr yn y pwnc a dynnwyd o gymuned y pwnc ac sy'n gweithredu ar ran y gymuned hon. Hwylusir y broses gan QAA, a hithau hefyd sy'n hyrwyddo'r ymgynghoriad llawn, a gynhelir ar gyfer pob Datganiad, gyda'r gymuned academiaidd ehangach a'r grwpiau rhanddeiliaid.

Er mwyn sicrhau bod Datganiadau Meincnodi Pwnc yn parhau'n gyfredol, mae QAA yn trefnu adolygiadau rheolaidd o'u cynnwys, bum mlynedd ar ôl eu cyhoeddi'n gyntaf, a phob saith mlynedd wedi hynny, neu mewn ymateb i unrhyw newidiadau sylweddol yn y ddisgyblaeth.

Y berthynas â deddfwriaeth

Mae darparwyr addysg uwch yn gyfrifol am gwrdd â gofynion mewn deddfwriaeth ac unrhyw ofynion rheoleiddiol eraill sydd wedi'u gosod arnynt, er enghraifft, gan gyrff ariannu. Nid yw'r Datganiad hwn yn dehongli deddfwriaeth nac yn ymgorffori gofynion statudol neu reoleiddiol. Bydd y cyfrifoldeb dros safonau academiaidd yn aros gyda'r darparwr addysg uwch sy'n dyfarnu'r radd.

Mae'n bosibl y bydd angen i ddarparwyr addysg uwch ystyried pwyntiau cyfeirio eraill yn ogystal â'r Datganiad hwn wrth gynllunio, darparu ac adolygu cyrsiau. Gallai'r rhain gynnwys gofynion sydd wedi'u pennu gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio a disgwyliadau gan ddiwydiant neu gyflogwyr.

Pan fo'n briodol, mae'r Datganiad Meincnodi Pwnc yn cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth am ofynion eraill ac enghreifftiau o arweiniad ac arfer da. Bydd y darparwyr addysg uwch unigol yn penderfynu sut y byddant yn defnyddio'r wybodaeth hon.

Crynodeb or newidiadau oddi ar y Datganiad Meincnodi Pwnc blaenorol (2015)

Y fersiwn hon o'r Datganiad yw'r pedwerydd argraffiad ohono, ar ôl cyhoeddi'r Datganiad Meincnodi Pwnc gyntaf yn 2002 a'i adolygu a'i ddiwygio yn 2007 a 2015.

Cynhyrchwyd y fersiwn ddiweddaraf hon o'r Datganiad i gyfateb ag argraffiad diwygiedig [Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU](#) a gyhoeddwyd yn 2018. Cafodd ei adolygu i ddiweddarau'r cyfeiriadau at y Cod Ansawdd a newidiadau bychain eraill yn y sector. Mae QAA wedi gwneud newidiadau ac mae'r rhain wedi derbyn cadarnhad gan Gadeirydd y grŵp adolygu mwyaf diweddar.

Ni chafwyd unrhyw newidiadau i gynnwys y Datganiad sy'n berthnasol i'r pwnc.

¹ Mae graddau baglor ar lefel 6 yn *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (2008) ac ar lefel 10 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban* (2001), fel y cyhoeddwyd yn [Y Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch gan Gyrrff Dyfarnu Graddau'r DU](#).

1 Egwyddorion diffiniol

1.1 Mae Cymraeg yn bwnc academaidd eang ac amrywiol sy'n cwmpasu'r iaith a'i llenyddiaeth, o'i dechreuadau hanesyddol hyd at y presennol, dulliau o'i defnyddio a'i hyrwyddo mewn cyd-destun cyfoes a sicrhau ei ffyniant yn y dyfodol. Mae astudio Cymraeg yn meithrin agwedd meddwl agored a hyblyg ynghyd â'r gallu i dafoli gwahanol gysyniadau a'u cyflwyno mewn ieithwedd briodol ar lafar ac yn ysgrifenedig; mae'n galluogi myfyrwyr i drafod a dehongli diwylliannau a gwerthoedd y gorffennol yn ogystal â datblygiadau'r byd modern.

1.2 Mae'r cyfraniad a wna'r pwnc at wireddu'r dyhead o greu gwlad ddwyieithog yn un canolog. Cyfranna'r pwnc yn genedlaethol at ystod eang o feysydd sy'n nodweddu cymdeithas sifig gyfoes, o addysg i ddarllenedu, o gyhoeddi i theatr, o wleidyddiaeth i weinyddiaeth, o gynllunio ieithyddol i'r diwydiant treftadaeth, o newyddiaduraeth i dwristiaeth, o gyfieithu i farchnata. Golyga'r ddeddfwriaeth sydd yn ei lle i warchod y Gymraeg ac ehangu'r defnydd a wneir ohoni fod y cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth i raddedigion yn y pwnc yn fwy niferus nag y buont erioed.

1.3 Mae'r ddisgyblaeth sy'n cael ei meithrin ymhlith myfyrwyr sy'n astudio'r pwnc yn ystyried ffurf, strwythur ac ieithwedd testunau, eu cyd-destun diwylliannol, eu harwyddocâd hanesyddol a'u gwerth llenyddol, y cysyniadau a adlewyrchir ynddynt, a'r berthynas rhwng y Gymraeg a meysydd eraill. Mae cyfle i fyfyrwyr astudio'r berthynas sy'n bodoli rhwng testunau llenyddol â'i gilydd a rhwng llenyddiaeth a chyfryngau eraill gan gynnwys presenoldeb y Gymraeg yn y byd digidol. Mae astudiaeth o'r iaith hithau yn cwmpasu ei hanes a'i datblygiad, ei chyd-destun cymdeithasol, ei gramadeg, a'i geirfa.

1.4 Mae cynlluniau gradd mewn Cymraeg yn:

- ennyn brwdfrydedd tuag at y pwnc drwy gyfrwng cwricwlwm eang a chytbwys
- galluogi myfyrwyr i werthfawrogi arwyddocâd diwylliannol a chymdeithasol y Gymraeg
- cynnig profiad cyffrous a boddhaus o ran y dysgu ar addysgu
- meithrin ystod o sgiliau perthnasol i'r pwnc ynghyd â sgiliau generig eraill, sef ystod o sgiliau syn werthfawr ar gyfer amryw byd o alwedigaethau gwahanol, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu, sgiliau llythrennedd, sgiliau dadansoddi, sgiliau beirniadol, sgiliau ymchwilio, y gallu i feddwl yn haniaethol ar gallu i gydweithio
- cynorthwyo myfyrwyr i ddeall ac i werthfawrogi grym mynegiannol iaith
- meithrin yr arfer o ddarllen llenyddiaeth yn feirniadol ac yn dddadansodol
- datblygu dealltwriaeth or broses greadigol ac o werth gweithiau llenyddol
- gosod sylfaen ar gyfer astudio pellach o fewn cwmpas y pwnc ei hun ac o fewn meysydd perthynol
- rhoi ystod o sgiliau pwnc-benodol a generig i raddedigion a fydd yn eu cymhwyso ar gyfer y gweithle.

2 Natur a chwmpas y Gymraeg fel pwnc

2.1 Y mae'n bosibl astudio Cymraeg fel pwnc anrhydedd sengl a chyd-anrhydedd mewn nifer o ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru ac fel rhan o gynlluniau eraill. Fel arfer y Gymraeg fydd cyfrwng y dysgu a'r asesu. Mae'r Datganiad hwn yn ganolog i gynlluniau gradd y mae Cymraeg yn elfen sylweddol ynddynt (o leiaf 80 credyd ar Lefel 5 neu 6 yn *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ)), gan gynnwys cynlluniau a addysgir trwy ddulliau dysgu o bell a darpariaethau addysg gydol oes. Mae hefyd yn berthnasol i gynlluniau astudiaethau Cymraeg, sef lle bo pwyslais ar ddysgu'r iaith a lle astudir nifer o destunau yn yr iaith wreiddiol.

2.2 Bydd myfyrwyr o amrywiol gefndiroedd ieithyddol yn astudio Cymraeg gan gynnwys rhai sydd heb brofiad blaenorol o'r iaith. Serch hynny disgwylir yr un safonau iaith gan bawb sy'n graddio mewn Cymraeg. Rhan ganolog o bob cynllun gradd fydd y modd y sicrhewr y safonau hynny, yn ysgrifenedig ac ar lafar.

2.3 Craidd y pwnc yw'r iaith Gymraeg, ei natur, ei hanes a'i sefyllfa bresennol, a llenyddiaeth Gymraeg o bob cyfnod. Gall astudiaethau llenyddol gynnwys drama, ffilm, teledu, radio, cyfryngau newydd, newyddiaduraeth, llên gwerin ac ysgrifennu creadigol. Un o nodweddion arbennig y Gymraeg yw ei hanes hir a chryfder ei thraddodiad llenyddol. Bydd cynlluniau gradd yn amrywio. Bydd rhai yn cynnig cyfle ar gyfer astudiaeth fanwl o gyfnodau neilltuol, neu o fathau o llenyddiaeth, neu o agweddau ar hanes a datblygiad yr iaith. Gallai astudiaethau ieithyddol gynnwys meysydd megis ieithyddiaeth, tafodieitheg, dwyieithrwydd, cyfieithu, cynllunio a pholisi iaith. Bydd galw cynyddol mewn addysg, llywodraeth leol a chanol, y cyfryngau a byd busnes am bobl sy'n medru gweithio'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae darpariaeth eang o fodiwlau i ddiwallu'r galw hwnnw gan gynnwys cyfieithu, is-deitlo, cynllunio iaith a sgiliau busnes. Yn y meysydd hyn ceir mwy o bwyslais ar sgiliau iaith ymarferol nag ar hanes yr iaith a'i llenyddiaeth. Mae gan y pwnc ddimensiwn rhyngwladol gan gynnwys iaith a diwylliant cymunedau Cymraeg ledled y byd.

2.4 Gallai gradd anrhydedd yn y pwnc gynnwys astudio un neu ragor o'r ieithoedd Celtaidd eraill a'u llenyddiaeth, gweithiau llenyddol mewn ieithoedd eraill a sefyllfaoedd amlieithog cyffelyb. Y mae perthynas ffrwythlon rhwng Cymraeg a nifer o ddisgyblaethau academaidd eraill. Wrth astudio Cymraeg y mae llawer o gyfleoedd ar gyfer astudiaethau rhyng-ddisgyblaethol a chymharol ac mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn hwyluso astudio amrywiaeth eang o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ochr yn ochr â'r pwnc ei hun.

3 Gwybodaeth bynciol a sgiliau

Gwybodaeth bynciol

3.1 Bydd graddedigion sydd wedi astudio'r pwnc yn gwybod am ystod o'r canlynol:

- llenyddiaeth o wahanol gyfnodau or Oesoedd Canol hyd at y presennol
- strwythur, datblygiad a hanes yr iaith Gymraeg, y defnydd ohoni ai pherthynas sylfaenol â hunaniaeth y Cymry
- amrywiadau lleol a chymdeithasol Cymraeg cyfoes ac ymagweddau tuag atynt
- perthynas y Gymraeg ai llenyddiaeth â diwylliannau ac ieithoedd eraill
- effaith iaith, diwylliant, economeg a thechnoleg ar sut, ymhle a chan bwy y mae testunau yn cael eu llunio au dehongli
- rôl darllenwyr wrth ffurfio ystyr testunau
- perthynas y Gymraeg â thechnoleg a chyfryngau o bob math
- gwahanol feysydd ieithyddiaeth gymwysedig, megis cynllunio a pholisi iaith, caffael iaith, dwyieithrwydd ac amlieithrwydd, dadansoddi disgwrs, a chyfieithu
- cysyniadau a therminoleg ieithyddol, llenyddol, beirniadol, a damcaniaethol, gan gynnwys rhai a gysylltir yn arbennig â'r Gymraeg (er enghraifft, y gynghanedd).

Sgiliau penodol i'r pwnc

3.2 Bydd graddedigion sydd wedi astudio'r pwnc yn gallu:

- ysgrifennu Cymraeg safonol mewn modd eglur ac effeithiol
- cynhyrchu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig syn addas ar gyfer ystod o sefyllfaoedd darllen yn fanwl ac yn feirniadol
- dadansoddi testunau a disgyrsiau gan ddefnyddio methodolegau, damcaniaethau a therminoleg addas
- ymateb yn feirniadol i rym mynegiannol iaith
- datblygu dehongliadau annibynnol a deallus o destunau llenyddol, ieithyddol, beirniadol, creadigol a digidol
- cyfleu dealltwriaeth feirniadol o destunau a syniadau cymhleth (gan eu perthnasu i sefyllfaoedd hanesyddol penodol lle bon briodol)
- deall, disgrifio a gwerthuso effaith amryfal ddatblygiadau economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol, a diwylliannol ar yr iaith Gymraeg
- rhoi ar waith sgiliau llyfryddol, llythrennedd a rhifedd addas i'r pwnc
- llunio/addasu testunau creadigol a/neu destunau a fwriedir ar gyfer gwahanol gyfryngau a sefyllfaoedd
- deall deunydd a luniwyd mewn iaith neu ieithoedd eraill ai gyf ieithu a/neu ei drawsieithu i'r Gymraeg mewn modd syn gydnaws â theithir iaith.

Sgiliau generig a sgiliau graddedigion

3.3 Bydd graddedigion sydd wedi astudio Cymraeg yn ymchwilwyr effeithiol, yn gyfathrebwyr graenus ac yn ddysgwyr gweithredol. Bydd y gallu ganddynt i gyfrannu'n helaeth i ddiwylliant y Gymraeg a bydd galw amdanynt gan gyflogwyr mewn gwahanol feysydd.

3.4 Bydd graddedigion sydd wedi astudio Cymraeg yn ymchwilyr effeithiol.
Byddant yn gallu:

- canfod a dadansoddi gwybodaeth, safbwyntiau a dadleuon cymhleth ac amrywiol gan arfer sgiliau technoleg gwybodaeth addas
- ymateb yn greadigol a deallus i dasgau ymchwil
- rhoi eu prosiectau eu hunain ar waith
- cyflwyno gwybodaeth oddi mewn i gyd-destunau ehangach
- profi, dehongli, a dadansoddi gwybodaeth mewn modd annibynnol, trylwyr a beirniadol gan lunio casgliadau argyhoeddiadol a dyfarniadau pendant
- cynllunio, trefnu, llunio, golygu a chyflwyno gwaith â diwyg proffesiynol o fewn terfynau amser penodedig.

3.5 Bydd gan raddedigion sydd wedi astudio Cymraeg sgiliau cyfathrebu datblygedig.
Byddant yn gallu:

- mynegi eu syniadau eu hunain a syniadau eraill mewn modd cryno, graenus, manwl-gywir, ac argyhoeddiadol, ar lafar ac yn ysgrifenedig
- datblygu perthynas waith effeithiol ag eraill mewn timoedd drwy gyfrwng trafodaethau adeiladol (er enghraifft, drwy wrando, holi ac ateb cwestiynau)
- dangos sensitifrwydd diwylliannol ac ieithyddol wrth weithio ag eraill.

3.6 Bydd graddedigion sydd wedi astudio Cymraeg yn ddysgwyr gydol-oes gweithgar a brwd.
Byddant yn gallu:

- ymaddasu i gwrdd â gofynion tasgau amrywiol
- gwerthfawrogi pwysigrwydd rhoi a derbyn adborth
- gwerthuso eu harferion au rhagdybiaethau eu hunain a myfyrio arnynt
- edrych y tu hwnt i'r union dasg wrth law er mwyn g weld y cyd-destun ehangach, gan gynnwys effeithiau cymdeithasol a/neu fasnachol eu gwaith
- rhoi cychwyn ar eu gwaith eu hunain a chymryd cyfrifoldeb drosto.

4 Dysgu, addysgu ac asesu

Dulliau dysgu ac addysgu

4.1 Defnyddia'r pwnc ystod o ddulliau dysgu amrywiol. Mae trafod a rhyngweithio yn rhan hanfodol o'r broses addysgol o safbwynt y pwnc ei hun a rhoi cyfle i fyfyrwyr feithrin sgiliau generig. Mae rhestrau darllen hefyd yn hanfodol er mwyn hyrwyddo dysgu annibynnol.

4.2 Y mae dulliau electronig o ddysgu ac addysgu hefyd yn briodol yn y rhan fwyaf o gyd-destunau, gan gynnwys dysgu o bell.

4.3 Bydd manyleb cwrs pob cynllun yn dangos yn glir beth yw rhychwant y dulliau dysgu ac addysgu a ddarperir ar gyfer y myfyrwyr. Byddant yn cynnwys amrywiaeth o'r dulliau canlynol, gan ddibynnu ar nod y modiwl unigol:

- darlithoedd
- seminarau
- dosbarthiadau tiwtorial
- dosbarthiadau iaith
- dosbarthiadau darllen testun
- gwaith maes
- profiad gwaith
- gweithdai
- cyfarwyddo traethawd estynedig neu brosiect
- dysgu cyfeiriedig
- dysgu annibynnol
- e-ddysgu.

Asesu

4.4 Gall yr asesu fod yn grynodol neu'n ffurfiannol a dylai'r broses roi adborth amserol ac adeiladol i fyfyrwyr. Gan hynny, dylai pob cynllun gradd yn y pwnc feddu ar y canlynol:

- strategaeth asesu syn cydweddu ag amcanion y modiwlau
- amrywiaeth o ddulliau asesu sydd yn galluogi myfyrwyr i ddangos rhychwant o gyraeddiadau a sgiliau
- meini prawf eglur, yn arbennig lle y ceir dulliau megis asesu cyflwyniadau llafar neu waith ar y cyd.

4.5 Gall y gwahanol ddulliau cymeradwy o asesu gynnwys y canlynol:

- arholiadau
- profion ac ymarferion iaith
- gwaith cwrs (gan gynnwys traethodau ac adolygiadau)
- gwaith prosiect (gall fod ar y cyd)
- traethawd estynedig
- asesu llafar (gan gynnwys cyflwyniadau ffurfiol, cyfraniadau mewn seminar)
- profiad gwaith (gan gynnwys adroddiadau ffurfiol, cadw dyddiadur adfyfyriol)
- gweithgareddau sydd yn asesu sgiliau arbennig (gan gynnwys technoleg gwybodaeth, llunio llyfryddiaeth a chyfeiriadau, llunio holiadur, trefnu gwaith maes)
- gwaith ffolio, gan gynnwys ysgrifennu creadigol ac ymarferion cyfieithu.

4.6 Rhaid nodi'n glir beth yw dull asesu ac ailasesu pob modiwl. Os defnyddir mwy nag un dull wrth asesu'r un modiwl, yna rhaid manylu ar werth canrannol pob darn o waith a asesir a nodi'r deilliannau perthnasol.

5 Safonau meincnodi

Cyflwyniad

5.1 Yn yr adran hon mynegir lefelau cyrhaeddiad yn nhermau canlyniadau'r dysgu. Disgrifiant yr hyn y disgwylir i fyfyrwyr allu ei gyflawni ar ôl graddio gydag anrhydedd yn y pwnc.

5.2 Disgrifir tair lefel o gyrhaeddiad:

- trothwy, sef y cyraeddiadau a ddisgwylir ar gyfer ennill gradd anrhydedd
- nodweddiadol, sef y cyraeddiadau a ddisgwylir gan y rhan fwyaf or myfyrwyr anrhydedd
- rhagoriaeth, sef y cyraeddiadau a ddisgwylir gan fyfyrwyr rhagorol.

5.3 Defnyddir hierarchaeth o dermau megis 'gallu', 'gallu da' a 'gallu datblygedig' i wahaniaethu rhwng y lefelau cyrhaeddiad.

5.4 Mae Adran 3, 'Gwybodaeth bynciol a sgiliau', yn nodi bod mwy nag un math o gwrs gradd mewn Cymraeg, ac y gall y ffocws ar sgiliau ac arbenigeddau amrywio. Er enghraifft, mewn rhai cyrsiau gradd caiff myfyrwyr ddatblygu sgiliau ysgrifennu creadigol neu sgiliau penodol yn ymwneud ag agweddau hanesyddol o'r iaith: eto, nid pob myfyriwr fydd yn dewis yr un trywydd. Yn yr adran hon, felly, rhoir sylw i elfennau a ystyrir yn graidd i'r ystod o gyrsiau.

5.5 Gall perfformiad gwan mewn un agwedd gael ei wrthbwysu gan berfformiad cryfach mewn agwedd arall. Ystyrir cyraeddiadau iaith wrth bennu marc pob modiwl.

5.6 Gall myfyrwyr ennill gradd anrhydedd yn y pwnc o feddu ar yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i'w galluogi i gyflwyno ffeithiau a dadleuon yn ôl gofynion lefel y trothwy, ond nod pob cynllun gradd anrhydedd yn y pwnc yw annog myfyrwyr i gyrraedd y lefel nodweddiadol o leiaf, a chynhyrchu myfyrwyr a fydd yn:

- gallu cywain a chlориannu gwybodaeth yn annibynnol
- gallu ymresymu a dadansoddi feirniadol
- gallu cyflwyno ffeithiau a dadleuon yn raenus ac yn effeithiol
- meddu ar nifer dda o sgiliau personol a generig, er enghraifft ym meysydd cyfathrebu, ymchwilio, sgiliau rhyngbersonol a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

5.7 Bydd myfyrwyr a ddyfernir yn rhagorol yn perfformio'n arwyddocaol uwch na'r lefel nodweddiadol ac yn arddangos elfennau o feistrolaeth, dealltwriaeth gyfwin, gwreiddioldeb a threiddgarwch.

Lefel trothwy

5.8 Bydd graddedigion (anrhydedd) y bu Cymraeg yn rhan sylweddol o'u cyrsiau gradd yn gallu dangos:

- gwybodaeth or pwnc, yn ôl ehangder y cwricwlwm a ddiffinnir yn Adran 3, Gwybodaeth bynciol a sgiliau
- gafael ar gystrawen a theithir Gymraeg
- gallu i adnabod, gwerthfawrogi ac arfer grym mynegiannol iaith
- sgiliau cyfathrebu safonol, ar lafar ac yn ysgrifenedig
- gafael ar dermau technegol a geirfar ddisgyblaeth
- gwybodaeth am rychwant o awduron, testunau a *genres* llenyddiaeth Gymraeg mewn gwahanol gyfnodau, a dealltwriaeth ohonynt
- gallu i ddefnyddio iaith at ddibenion dychmygus a chreadigol

- cynefindra â'r prif ffynonellau gwybodaeth yn y maes a gallu i gywain gwybodaeth o sawl ffynhonnell
- cynefindra â nifer or syniadau ar gwerthoedd a gyflwynir trwy iaith ai llenyddiaeth, mewn gwahanol gyfnodau
- gallu i gloriannu ffynonellau cynradd ac eilaidd
- gallu i ddadansoddi testunau llenyddol cyfarwydd
- gallu i ymateb i farn ac i fynegi barn bersonol
- gallu i grynhoi syniadau a dadleuon pobl eraill.

Lefel nodweddiadol

5.9 Bydd graddedigion (anrhydedd) y bu Cymraeg yn rhan sylweddol o'u cyrsiau gradd yn gallu dangos:

- gwybodaeth eang a da or pwnc, yn ôl ehangder y cwricwlwm a ddiffinnir yn Adran 3, Gwybodaeth bynciol a sgiliau
- gafael dda ar gystrawen a theithir Gymraeg, ynghyd â geirfa eang, gyfoethog a manwl
- gallu da i adnabod, gwerthfawrogi ac arfer grym mynegiannol iaith
- sgiliau cyfathrebu graenus a chllir, mewn arddull briodol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, mewn ystod o gyd-destunau
- gafael dda ar dermau technegol a geirfar ddisgyblaeth
- gwybodaeth dda am rychwant o awduron, testunau a *genres* llenyddiaeth Gymraeg mewn gwahanol gyfnodau, dealltwriaeth dda ohonynt, ar gallu iw cymharu â'i gilydd au gosod yn eu cyd-destun hanesyddol, llenyddol ac ieithyddol ehangach
- gwybodaeth dda or ffynonellau gwybodaeth safonol yn y maes ar gallu i gywain gwybodaeth berthnasol a dibynadwy o nifer sylweddol o ffynonellau, yn ysgrifenedig, ar lafar ac yn electronig, ai defnyddion ddeallus ac yn bwrpasol
- cynefindra â nifer dda or syniadau ar gwerthoedd a gyflwynir trwy iaith ai llenyddiaeth mewn gwahanol gyfnodau, ar gallu i ymateb yn feirniadol iddynt
- gallu i gloriannu ffynonellau cynradd ac eilaidd yn ddeallus ac yn gytbwys au defnyddion bwrpasol
- gallu i ddadansoddi testunau llenyddol, cyfarwydd ac anghyfarwydd, yn fanwl ac yn feirniadol, ac ymateb yn ddeallus ac yn gytbwys iddynt
- gallu i ymateb i farn, i fynegi barn bersonol gytbwys, ac i gyflwyno a datblygu dadl, yn glir ac yn rhesymegol
- gallu i grynhoi syniadau a dadleuon pobl eraill yn deg ac yn gytbwys.

Lefel rhagoriaeth

5.10 Bydd graddedigion (anrhydedd) y bu Cymraeg yn rhan sylweddol o'u cyrsiau gradd yn gallu dangos:

- gafael ardderchog ar gystrawen a theithir Gymraeg
- gallu datblygedig i adnabod, gwerthfawrogi ac arfer grym mynegiannol iaith
- sgiliau cyfathrebu cywir, clir ac effeithiol, mewn arddull briodol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, mewn ystod eang o gyd-destunau
- gafael ardderchog ar dermau technegol a geirfar ddisgyblaeth
- gwybodaeth ardderchog am rychwant eang o awduron, testunau a *genres* llenyddiaeth Gymraeg mewn gwahanol gyfnodau, dealltwriaeth drylwyr ohonynt, a gallu datblygedig iw cymharu â'i gilydd au gosod yn eu cyd-destun hanesyddol, llenyddol ac ieithyddol ehangach
- gwybodaeth ardderchog or ffynonellau gwybodaeth safonol yn y maes ar gallu i gywain gwybodaeth berthnasol a dibynadwy o rychwant eang o ffynonellau, yn ysgrifenedig, yn llafar ac yn electronig, ai defnyddion dreiddgar ac yn bwrpasol

- meistrolaeth ar rychwant eang or syniadau ar gwerthoedd a gyflwynir trwyr iaith ai llenyd diaeth a gallu datblygedig i ymateb yn feirniadol iddynt
- gallu datblygedig i gloriannu ffynonellau cynradd ac eilaidd yn dreiddgar ac yn gytbwys au defnyddion bwrpasol
- gallu datblygedig i ddadansoddi testunau llenyddol, cyfarwydd ac anghyfarwydd, yn fanwl ac yn feirniadol, ac ymateb yn dreiddgar ac yn gytbwys iddynt
- gallu datblygedig i ymateb i farn, i fynegi barn bersonol aeddfed ac annibynnol, ac i gyflwyno a datblygu dadl estynedig, yn glir, yn rhesymegol ac yn gydlynol
- gallu datblygedig i grynhoi syniadau a dadleuon pobl eraill yn deg ac yn gytbwys.

Atodiad 1: Aelodaeth y grwpiau meincnodi ac adolygu ar gyfer y Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Cymraeg

Aelodaeth y grŵp adolygu ar gyfer y Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Cymraeg (2019)

Cafodd y pedwerydd argraffiad hwn, a gyhoeddwyd yn 2019, ei adolygu gan QAA i alinio ei gynnwys â'r fersiwn ddiwygiedig o God Ansawdd Addysg Uwch y DU a gyhoeddwyd yn 2018. Cafodd unrhyw newidiadau arfaethedig eu gwirio a'u dilysu gan Gadeirydd y grŵp adolygu ar gyfer y Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Cymraeg yn 2015.

| | |
|--------------------------|------------------|
| Yr Athro Gerwyn Williams | Prifysgol Bangor |
| Dr Andy Smith | QAA |

Aelodaeth y grŵp adolygu ar gyfer y Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Cymraeg (2015)

Y manylion isod yw'r rhai a gyhoeddwyd yn nhrydydd argraffiad y Datganiad Meincnodi Pwnc.

| | |
|--------------------------------------|-------------------------------------|
| Dr Cathryn Charnell-White | Prifysgol Aberystwyth |
| Dr Dylan Foster Evans | Prifysgol Caerdydd |
| Yr Athro Jane Cartwright | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| Dr Aled Llion Jones | Prifysgol Bangor |
| Dr Cynfael Lake | Prifysgol Abertawe |
| Yr Athro Peredur I Lynch | Cymdeithas Astudiaethau'r Gymraeg |
| Yr Athro Gerwyn Williams (Cadeirydd) | Prifysgol Bangor |
| Dr Rhiannon Heledd Williams | Prifysgol De Cymru |
| Cynrychiolwyr y cyflogwyr | |
| Dr Huw Meirion Edwards | Cyngor Llyfrau Cymru |
| Mr Andrew Hawke (Ysgrifennydd) | Geiriadur Prifysgol Cymru |
| Myfyriwr ddarllenydd | |
| Steffan Bryn | |
| Swyddog QAA | |
| Dan Murch | QAA |

Aelodaeth y grŵp adolygu ar gyfer y Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Cymraeg (2007)

Y manylion isod yw'r rhai a gyhoeddwyd yn ail argraffiad y Datganiad Meincnodi Pwnc.

| | |
|---|---|
| Dr Dylan Foster Evans | Prifysgol Caerdydd |
| Dr Ian Hughes | Prifysgol Aberystwyth |
| Dr Christine Jones | Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan |
| Dr Cynfael Lake | Prifysgol Abertawe |
| Yr Athro Peredur I Lynch (Ysgrifennydd) | Cymdeithas Astudiaethau'r Gymraeg / Prifysgol Bangor |
| Yr Athro Gerwyn Williams | Prifysgol Bangor |
| Yr Athro Gruffydd Aled Williams (Cadeirydd) | Cymdeithas Astudiaethau'r Gymraeg / Prifysgol Aberystwyth |

Aelodaeth y grŵp datganiad meincnodi gwreiddiol ar gyfer Cymraeg (2002)

Y manylion isod yw'r rhai a gyhoeddwyd yn y Datganiad Meincnodi Pwnc gwreiddiol ar gyfer Cymraeg.

| | |
|----------------------------------|--|
| Yr Athro Sioned Davies | Prifysgol Caerdydd |
| Dr Bleddyn Owen Huws | Prifysgol Cymru, Aberystwyth |
| Dr E Wyn James | Prifysgol Caerdydd |
| Yr Athro Branwen Jarvis | Prifysgol Cymru, Bangor |
| Yr Athro Dafydd Johnston | Prifysgol Cymru, Abertawe |
| Yr Athro Glyn E Jones | Prifysgol Caerdydd |
| Dr Brynley F Roberts (Cadeirydd) | |
| Yr Athro D A Thorne | Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan |
| Yr Athro Gruffydd Aled Williams | Prifysgol Cymru, Aberystwyth |

Dyma'r pedwerydd argraffiad - Rhagfyr 2019
QAA2484

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2019
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557 000
Gwefan: www.qaa.ac.uk